# Agenda – Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda via Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 1 Hydref 2020

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.** Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv.

**Cofrestru**

(13.30–14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Paratoadau yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio – sesiwn dystiolaeth gyda rhanddeiliaid o borthladdoedd Cymru a'r sector cludo nwyddau.

(14.00–15.30) (Tudalennau 1 – 44)

Richard Ballantyne, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

Duncan Buchanan, y Gymdeithas Cludiant Ffyrdd

Mags Simpson, Logistics UK

## 3 Papurau i'w nodi

(15.30–15.35)

**3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y gwaith craffu ar drefniadau ar gyfer ymadael â'r UE – 24 Medi 2020.**

(Tudalen 45)

3.2 Papur i'w nodi 2: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Marchnad Fewnol y DU - 25 Medi 2020

(Tudalennau 46 - 59)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.35)

## 5 Paratoadau yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio - trafod y dystiolaeth

(15.35-15.50)

## 6 Bil Marchnad Fewnol y DU - ystyried dull y Pwyllgor

(15.50-16.05) (Tudalennau 60 - 62)

## 7 Trafod cytundebau rhyngwladol

(16.05-16.20) (Tudalennau 63 - 65)

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Medi 2020

Annwyl David a Mick,

**Craffu ar drefniadau ymadael â'r UE**

Ymhellach i'r **ohebiaeth** gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd dyddiedig 20 Gorffennaf, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn trafod sut y bydd y newidiadau sylweddol a ddaw yn sgil Brexit yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael yng Nghymru, a'n rôl o ran craffu ar y newidiadau hyn.

Mae'n amlwg y bydd newidiadau i raglenni cyllid, y cynigion ynghylch y farchnad fewnol a deddfwriaeth ymadael â'r UE yn effeithio ar gylch gwaith pob un o'n Pwyllgorau, ac rwyf am ystyried sut y gall gwaith y Pwyllgor Cyllid ychwanegu gwerth i'r gwaith sydd gennych chi ar y gweill ar hyn o bryd. Yn ogystal, gallai fod yn ddefnyddiol inni ystyried a allai gwaith craffu ar y cyd fod yn ddefnydd effeithiol o amser y Pwyllgorau a'r Gweinidogion.

Byddwn yn croesawu cael eich barn ynghylch a fyddai gwaith ar cyd yn ddefnyddiol ac ynghylch unrhyw ffyrdd eraill y gall gwaith y Pwyllgor Cyllid ategu gwaith eich Pwyllgorau.



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL MARCHNAD FEWNOL Y DEYRNAS UNEDIG**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan reol sefydlog 29.2. Mae rheol sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru ("y Senedd" o hyn ymlaen) os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cafodd Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Mercher 9 Medi 2020 a phasiodd ei Ail Ddarlleniad ddydd Llun 14 Medi. Mae'r Bil ar gael yma: https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/unitedkingdominternalmarket.html.

**Amcan(ion) Polisi**

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan yr amcanion polisi canlynol:

   a) parhau i sicrhau cyfleoedd economaidd ledled y Deyrnas Unedig;

   b) parhau i gynyddu cystadleurwydd a galluogi dinasyddion ledled y DU i fod yn yr amgylchedd gorau yn y byd i wneud busnes;

   c) parhau i ddarparu ar gyfer lles cyffredinol, ffyniant, a sicrwydd economaidd holl ddinasyddion y DU.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

5. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn ymdrin â'r canlynol:

   a) Egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, gan ffurfio'r Ymrwymiad Mynediad i'r Farchnad, a fyddai'n gymwys ar draws y DU;

   b) Addasiadau i egwyddorion yr ymrwymiad mynediad i'r farchnad, er mwyn rhoi effaith i ddarparu mynediad dirwystr ar gyfer nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr;

   c) Cydnabod cymwysterau proffesiynol ledled y DU;

   d) Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) y darperir swyddogaethau newydd iddo, gan gynnwys monitro iechyd y

farchnad fewnol a chynghori ac adrodd ar gynigion a rheoliadau a'u heffaith bosibl neu wirioneddol ar Farchnad Fewnol y DU;

e) Mesurau sy'n cymryd camau i "egluro elfennau penodol o Brotocol Gogledd Iwerddon o dan gyfraith ddomestig, ynghylch tariffau, gweithdrefnau allforio a chymorth gwladwriaethol, er mwyn dileu unrhyw amwysedd";

f) Darpariaethau i "sicrhau dull unffurf ledled y DU" o ran gweithredu cyfraith cymorth Gwladwriaethol yr UE o dan Erthygl 10 o Brotocol Gogledd Iwerddon;

g) Y pŵer i alluogi un o Weinidogion Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ariannol i bersonau yn unrhyw ran o'r DU i hybu datblygu economaidd, seilwaith, diwylliant a chwaraeon, yn ogystal â gweithgareddau addysg a hyfforddiant;

h) Diwygiad penodol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Alban 1998, a Deddf Gogledd Iwerddon 1998 i gynnwys rheoleiddio cymorthdaliadau ymysg y materion a gedwir yn ôl.

**Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

6. Ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer pob darpariaeth yn y Bil. Mae'n ymddangos bod yr asesiad hwn yn cael ei rannu gan Lywodraeth y DU fel y nodir yn Atodiad A i nodiadau esboniadol y Bil.

7. Mae cymal 49 o'r Bil yn ceisio diwygio paragraff 5 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel bod y Bil cyfan yn cael ei bennu'n ddeddfiad gwarchodedig. Felly, bydd pob darpariaeth yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ychwanegu at y categori o ddeddfwriaeth na chaiff ei diwygio, ac felly mae rheol sefydlog 29.1(ii) yn gymwys iddynt. Mae angen cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan.

8. Mae rheol sefydlog 29.1(ii) hefyd yn gymwys i gymal 48 o'r Bil (Rheoleiddio cymorthdaliadau ystumiol neu niweidiol) gan ei fod yn ceisio diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, mae angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd yn rhinwedd rheol sefydlog 29.1(ii).

9. Mae rheol sefydlog 29.1(i) hefyd yn gymwys i gymalau eraill yn y Bil ac mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer fel y nodir isod.

***Rhan 1 – Marchnad Fewnol y DU: Nwyddau***

*Cymal 1 – rhagarweiniad*

10. Mae'r cymal hwn yn nodi diben arfaethedig Rhan 1 o'r Bil, sef hyrwyddo gweithrediad parhaus marchnad fewnol y DU ar gyfer nwyddau drwy

sefydlu dwy egwyddor newydd ar gyfer mynediad i'r farchnad yng nghyfraith y DU.

11. Bydd y ddwy egwyddor newydd ar gyfer mynediad i’r farchnad a sefydlir gan y Bil yn gymwys mewn perthynas â rheolau ar faterion nas cedwir yn ôl. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymalau 2-4 – cydnabyddiaeth gilyddol: nwyddau*

12. Mae Cymal 2 yn nodi egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau, gan gynnwys effaith cydnabyddiaeth gilyddol a'r meini prawf y bydd rhaid i nwydd eu bodloni er mwyn elwa ar yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Mae'n darparu y bydd modd i nwydd, sydd wedi ei gynhyrchu mewn, neu ei fewnforio i un rhan o'r DU ac y gellir ei werthu'n gyfreithlon yno, gael ei werthu’n gyfreithlon unrhyw le yn y DU heb unrhyw ofynion perthnasol a fyddai fel arall yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys pan nad oes unrhyw ofynion ar waith yn y man lle y cafodd y nwydd ei gynhyrchu neu ei fewnforio iddo – gellid gwerthu'r nwydd yn gyfreithlon heb orfod bodloni unrhyw ofynion perthnasol sy’n bodoli mewn mannau eraill yn y DU.

13. Mae cymal 3 yn diffinio gofyniad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waharddiad ar werthu nwyddau, neu rwymedigaeth neu amod gwerthu y byddai methu â’i fodloni yn arwain at waharddiad ar werthu'r nwydd. Mae'r cymal yn mynd ymlaen i bennu gofynion perthnasol sy'n cynnwys nodweddion y nwydd (oedran, cyfansoddiad, natur, ansawdd neu berfformiad), cyflwyniad y nwyddau (deunydd pacio, labelu, marcio, samplu), safonau cynhyrchu, adnabod neu olrhain anifeiliaid, arolygu, asesu, cofrestru, ardystio, cymeradwyo neu awdurdodi nwydd, dogfennaeth neu wybodaeth sy'n ymwneud â nwydd, ac unrhyw beth arall sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer ei werthu (neu unrhyw beth arall y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn ei nodi mewn rheoliadau).

14. Mae cymal 4 yn eithrio unrhyw ofynion sy'n bodoli eisoes (ar y dyddiad cychwyn) o gwmpas y Bil. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ofynion sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu hailddeddfu yn y dyfodol heb newid sylweddol.

15. Mae’r cymalau hyn yn creu rheol drosfwaol sy’n darparu y caiff nwyddau y gellir eu gwerthu’n gyfreithlon mewn un rhan o’r DU (neu eu mewnforio i’r rhan honno) gylchredeg yn ddirwystr o fewn y DU heb orfod bodloni rheolau pob rhan o’r DU. Maent yn gweithredu fel na fyddai unrhyw reoliadau a wneir gan y Senedd neu Weinidogion Cymru yn y dyfodol o fewn cwmpas y cymalau hyn yn cael effaith ar nwyddau sy’n cael eu cynhyrchu mewn, neu eu mewnforio i unrhyw ran arall o’r DU ac a werthir yng Nghymru. O ganlyniad, byddai’r cymalau hyn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymalau 5-9 – peidio â gwahaniaethu: nwyddau*

16. Mae Cymal 5 yn nodi egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau ac yn darparu na fydd gofyniad perthnasol sy'n gymwys mewn un rhan o'r DU sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn nwyddau sy'n cyrraedd o'u cymharu â nwyddau lleol yn cael unrhyw effaith.

17. Mae cymal 6 yn diffinio gofyniad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n cymhwyso gofynion ar y dull o werthu nwyddau, a gofynion eraill i'r graddau nad ydynt yn gyfystyr â gofynion y mae angen cydymffurfio â hwy i werthu nwydd yn gyfreithlon, megis gofynion ar gludo, storio, trin neu arddangos nwyddau. Rhoddir pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio cwmpas gofyniad perthnasol, yn ddarostyngedig i ymgynghori â Gweinidogion datganoledig.

18. Mae cymal 7 yn rhoi esboniad o wahaniaethu uniongyrchol at ddibenion cymal 5, sef pan fo nwydd sy'n cyrraedd (boed y nwydd wedi ei gynhyrchu mewn rhan arall o'r DU neu wedi ei fewnforio i ran arall o'r DU, ac yn pasio drwy ran arall o'r DU) yn cael ei drin yn anffafriol o'i gymharu â nwydd lleol.

19. Mae cymal 8 yn rhoi esboniad o wahaniaethu anuniongyrchol at ddibenion cymal 5, sef pan na wahaniaethir yn uniongyrchol yn erbyn nwyddau sy'n cyrraedd, ond mae gofyniad perthnasol yn rhoi nwyddau sy'n cyrraedd o dan anfantais ac yn ystumio'r farchnad drwy greu 'effaith andwyol ar y farchnad'. Caiff rheoleiddiwr wyro oddi wrth y rheolau ar wahaniaethu anuniongyrchol er mwyn bodloni nodau dilys penodol. Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol newid y rhestr o nodau dilys drwy reoliadau heb unrhyw ofynion i ymgynghori â Gweinidogion datganoledig nac i gael eu cydsyniad.

20. Mae cymal 9 yn darparu bod y ddarpariaeth statudol bresennol (ar y dyddiad cychwyn) yn cael ei heithrio fel gofyniad perthnasol at ddibenion yr egwyddor, oni bai ei bod yn cael ei hailddeddfu gyda newid sylweddol.

21. Bydd yr egwyddor peidio â gwahaniaethu a sefydlir gan y cymalau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw reoleiddio yn y dyfodol yng nghwmpas y Bil mewn meysydd nas cedwir yn ôl. Effaith y cymalau i bob pwrpas fydd rhoi o'r neilltu unrhyw reoliadau perthnasol a wneir gan y Senedd a Gweinidogion Cymru y byddai'r egwyddor peidio â gwahaniaethu yn gymwys iddynt, i'r graddau ag y byddent fel arall yn gymwys i nwyddau sydd wedi eu cynhyrchu mewn unrhyw ran arall o'r DU, neu wedi eu mewnforio i unrhyw ran arall o'r DU. Oherwydd yr effaith hon ar reolau ynghylch materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae angen cydsyniad y Senedd o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 10 ac Atodlen 1 – eithriadau*

22. Mae cymal 10 yn cyflwyno Atodlen 1 ac felly cânt eu hystyried gyda'i gilydd. Mae Atodlen 1 yn pennu eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad.

23. Mae'r eithriadau ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen yn ymwneud â rheoli plâu a chlefydau, diogelwch bwyd, cemegion a threthu. Mae paragraffau 1 a 2 hefyd yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â hysbysiadau am unrhyw fesurau sydd o fewn yr eithriadau hyn.

24. Mae'r eithriad olaf ym mharagraff 10 yn darparu nad yw gwahaniaethu anuniongyrchol yn gymwys i ofynion a wneir gan neu o dan Ddeddfau Senedd y DU, pan fo'r gofynion hyn yn gymwys i nwyddau yn y rhan o'r DU y maent yn tarddu ohoni yn ogystal ag yn y rhan y maent yn mynd iddi.

25. I'r graddau y mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y rheolau, byddai'r eithriadau i'r rheolau hynny, a'r pwerau i addasu'r eithriadau, hefyd yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yr unig eithriad i hyn yw'r eithriad ym mharagraff 10 o Atodlen 1 ynglŷn ag eithriad i'r rheol ar wahaniaethu anuniongyrchol. Mae'r eithriad hwn yn ymwneud â gweithredu unrhyw ofynion a geir mewn neu o dan Ddeddf gan Senedd y DU. I fod o fewn yr eithriad, byddai angen i'r un gofyniad, neu ofyniad tebyg ei sylwedd, fod yn gymwys yn y rhan o'r DU y mae'r nwyddau yn tarddu ohoni yn ogystal ag yn y rhan y maent yn mynd iddi. Mae'r ddarpariaeth hon yn gweithredu ar faterion y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan fod gweithredu'r cymal yn ddibynnol ar weithredu rheolau y tu hwnt i Gymru, ac felly nid yw rheol sefydlog 29.1(i) yn gymwys iddi. Serch hynny, i gadarnhau, mae rheol sefydlog 29.1(ii) yn gymwys i baragraff 10 o Atodlen 1, ynghyd â'r holl gymalau eraill yn y Bil, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer.

*Cymal 11 – Protocol Gogledd Iwerddon*

26. Mae'r cymal hwn yn nodi addasiadau i'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau mewn perthynas â gwerthu nwyddau o Ogledd Iwerddon ym Mhrydain Fawr.

27. Bydd y cymal hwn yn gweithredu yn unol â'r rheolau yn Rhan 1 o'r Bil sy'n gymwys mewn meysydd nas cedwir yn ôl ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 12 – gwerthu nwyddau sy'n cydymffurfio â chyfraith leol*

28. Mae cymal 12 yn darparu na fydd dim byd yn Rhan 1 o'r Bil yn atal nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu mewn, neu eu mewnforio i un rhan o'r DU rhag cael eu gwerthu mewn rhan arall o'r DU os yw'r gwerthiant yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion sy'n gymwys yn y rhan honno (neu os nad oes gofynion o'r fath).

29. Bydd y cymal hwn hefyd yn gweithredu ochr yn ochr â’r rheolau yn Rhan 1 o’r Bil, sy’n gymwys mewn meysydd nas cedwir yn ôl, ac mae’n egluro’r rheolau hynny. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymalau 13 a 14 – dehongli*

30. Mae'r cymalau hyn yn darparu ar gyfer dehongli Rhan 1 ac felly maent yn barasitig ar weddill cymalau Rhan 1. O ganlyniad, mae angen cydsyniad ar eu cyfer i'r graddau y mae angen cydsyniad ar gyfer gweddill cymalau Rhan 1 o dan reol sefydlog 29.1(i).

***Rhan 2 – Mynediad i Farchnad y DU: Gwasanaethau***

*Cymal 15 – gwasanaethau: trosolwg*

31. Mae'r cymal hwn yn gosod y paramedrau ac yn diffinio gweithrediad Rhan 2 o’r Bil. Mae felly’n sefydlu’r graddau y bydd y cymalau canlynol yn gymwys iddynt mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fel y nodir isod, bydd angen cydsyniad ar gyfer y cymalau canlynol ac felly bydd angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn i'r graddau y mae angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hynny o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 16 ac Atodlen 2 – gwasanaethau: eithriadau*

32. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n pennu nifer o fathau o ddarpariaeth gwasanaeth sydd y tu hwnt i gwmpas Rhan 2. I'r graddau y mae angen cydsyniad ar gyfer prif gynnig y Rhan hon, mae hefyd yn wir mewn egwyddor y byddai angen cydsyniad i bennu unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth nas cedwir yn ôl a eithrir. Mae rhai o’r eithriadau yn Atodlen 2 yn ymwneud â gwasanaethau a gedwir yn ôl, fodd bynnag, mae nifer o’r categorïau o eithriadau (er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

33. Mae cymal 16 hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ychwanegu at y rhestr honno neu ei haddasu. Nid oes gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, na cheisio eu cydsyniad, cyn gwneud unrhyw reoliadau o’r fath. I'r graddau y mae angen cydsyniad ar gyfer y rhestr ei hun, byddai angen cydsyniad ar gyfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd, o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 17: cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer gofynion awdurdodi*

34. Mae'r cymal hwn yn sefydlu egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer awdurdodiadau i ddarparu gwasanaethau. Mae'n darparu na fydd gofyniad awdurdodi, a fyddai fel arfer yn ofynnol ei fodloni i gynnal gwasanaeth mewn un rhan o'r DU, yn gymwys os yw'r darparwr gwasanaeth wedi ei awdurdodi i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw mewn rhan arall o'r DU.

35. Mae eithriad i'r rheol gyffredinol ar gyfer sefyllfa pan fo rheoleiddiwr gwasanaeth yn gosod gofynion rheoleiddiol mewn ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd. Pan ellir cyfiawnhau argyfwng o'r fath yn rhesymol, nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn berthnasol.

36. Bydd y rheol hon yn gymwys mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ei heffaith fydd rhoi o’r neilltu unrhyw reolau perthnasol a wneir gan y Senedd a Gweinidogion Cymru yn y dyfodol mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau o fewn cwmpas y Rhan hon. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymalau 18 a 19 – gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol o ran rheoleiddio gwasanaethau*

37. Mae cymalau 18 a 19 yn darparu na fydd unrhyw effaith i unrhyw ofynion rheoleiddiol a osodir gan reoleiddiwr gwasanaethau sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn darparwr gwasanaeth. Fel y nodir uchod, diffinnir gofyniad rheoleiddiol yng nghymal 16 o'r Bil fel gofyniad deddfwriaethol a fyddai, pe na bai’n cael ei fodloni, boed hynny ar adeg benodol neu'n barhaus, yn atal darparwr gwasanaeth rhag cynnal busnes sy’n darparu gwasanaethau penodol.

38. Mae cymal 18 yn darparu bod gwahaniaethu uniongyrchol yn y cyd-destun hwn yn seiliedig yn benodol neu'n amlwg ar o ble y mae darparwr yn dod o fewn y DU, ond y gellir ei gyfiawnhau'n rhesymol os yw'n ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd.

39. Mae cymal 19 yn darparu na fyddai gwahaniaethu anuniongyrchol yn y cyd-destun hwn yn ceisio gwahaniaethu'n benodol yn erbyn darparwyr gwasanaethau yn seiliedig ar o ble y maent yn dod o fewn y DU, ond y byddai'n cael yr effaith o'u rhoi o dan anfantais o’u cymharu â darparwr gwasanaeth tebyg o ran arall o'r DU. Ceir eithriad ar gyfer unrhyw fesurau y gellir eu cyfiawnhau fel modd angenrheidiol o gyflawni nod dilys. Diffinnir nod dilys yng nghymal 19(6) a’i ystyr yw diogelu bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, sicrhau diogelwch y cyhoedd a gweinyddu cyfiawnder yn effeithlon. Mae cymal 19 hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol newid y rhestr o nodau dilys drwy reoliadau heb unrhyw ofyniad i ymgynghori â Gweinidogion datganoledig na cheisio eu cydsyniad.

40. Bydd y rheol hon yn gymwys mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a’i heffaith fydd rhoi o’r neilltu unrhyw fesurau perthnasol i’r graddau yr ystyrir eu bod yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ddarparwyr gwasanaethau o unrhyw ran arall o’r DU. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymalau 20 a 21 – dehongli*

41. Mae cymal 20 yn diffinio cysyniad rheoleiddiwr at ddibenion Rhan 2 ac mae cymal 21 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â dehongli Rhan 2. Gan fod y cymalau hyn yn barasitig ar weddill cymalau Rhan 2, ystyrir bod angen cydsyniad ar eu cyfer i'r graddau y maent yn darparu rheolau dehongli ar gyfer yr elfennau o Ran y mae hefyd angen cydsyniad ar eu cyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

***Rhan 3 – Cymwysterau a Rheoleiddio Proffesiynol***

*Cymal 22 – mynediad at broffesiynau ar sail cymwysterau neu brofiad*

42. Mae cymal 22 yn nodi pryd y caiff gweithiwr proffesiynol cymwysedig mewn un rhan o'r DU ei drin yn awtomatig fel un cymwysedig mewn perthynas â'r proffesiwn hwnnw mewn rhan arall o'r DU (yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig). Mae'r cymal hwn hefyd yn esbonio'r sefyllfaoedd pan na fydd yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys. Mae'n darparu y bydd preswylwyr y DU sy'n "gymwysedig" mewn rhan arall o'r DU yn cael eu trin fel pe baent yn gymwysedig i ymarfer y proffesiwn hwnnw yn y rhan berthnasol, pan fo darpariaeth yn cyfyngu ar fynediad i broffesiwn yn y rhan berthnasol o'r DU i'r rhai sydd â chymwysterau neu brofiad penodol.

43. Effaith y cymal hwn fydd addasu gweithrediad unrhyw reolau yn y dyfodol ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol mewn perthynas â phroffesiynau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 23 – ystyr preswylydd DU "cymwysedig"*

44. Mae'r cymal hwn yn nodi pryd yr ystyrir unigolyn yn breswylydd DU 'cymwysedig' er mwyn gallu dibynnu ar yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig fel y'i nodir yng nghymal 22. I'r graddau y mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 22, byddai angen cydsyniad ar gyfer cymal 23 hefyd, o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 24 – eithriad o adran 22 pan gynigir asesiad unigol*

45. Mae'r cymal hwn yn darparu na fydd yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yng nghymal 22 yn gymwys pan fo proses sy'n cydymffurfio â'r cymal yn galluogi preswylydd o'r DU i geisio cydnabyddiaeth ar gyfer ei gymwysterau neu ei brofiad proffesiynol er mwyn ymarfer y proffesiwn o dan sylw. Nid yw hyn yn effeithio ar sefyllfa unrhyw unigolyn sydd wedi ymarfer y proffesiwn cyn i'r broses fod ar gael (a fydd yn dal i allu dibynnu ar gydnabyddiaeth awtomatig).

46. Mae'n darparu ymhellach y dylai'r rhai sydd â chymwysterau neu brofiad a gawsant mewn un rhan o'r DU gael eu trin yn gyfartal i gymwysterau neu brofiad cyfatebol a geir yn y rhan y ceisir cydnabyddiaeth ynddi, ac y dylid

gallu dibynnu arnynt i ddangos yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol sy’n ofynnol i gael mynediad i'r proffesiwn.

47. Os na all ymgeisydd ddibynnu ar gymwysterau a phrofiad yn unig i ddangos yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol sy’n ofynnol i gael mynediad i broffesiwn penodol, dylai'r broses ganiatáu i'r ymgeisydd ymgymryd â phrawf neu asesiad er mwyn gallu dangos bod ganddo, mewn gwirionedd, yr wybodaeth a'r sgiliau nad yw ei gymwysterau na'i brofiad yn eu dangos.

48. Os gall yr ymgeisydd ddangos yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, naill ai ar sail y cymwysterau neu'r profiad y mae ganddo dystiolaeth ohonynt, neu drwy'r prawf neu’r asesiad, dylai'r corff rheoleiddio gydnabod yr ymgeisydd a chaniatáu iddo ymarfer y proffesiwn yn y rhan honno o'r DU.

49. Bydd y ddarpariaeth hon yn addasu gweithrediad rheolau yn y dyfodol ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol mewn perthynas â phroffesiynau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 25 – eithriadau eraill o adran 22*

50. Mae cymal 25 yn darparu nad yw'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys i'r ddarpariaeth bresennol ac eithrio pan fo rhan neu ran wahanol o'r DU, ar ôl i'r Bil gael ei basio, yn gwneud darpariaeth sy'n effeithio ar yr amgylchiadau lle mae unigolion yn gymwysedig mewn perthynas â'r proffesiwn o dan sylw.

51. Bydd y cymal hwn yn addasu effaith rheolau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae angen cydsyniad ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 26 – rheoleiddio proffesiynol nad yw o fewn adran 22: triniaeth gyfartal*

52. Mae'r cymal hwn yn darparu bod rhaid i breswylydd o'r DU sy'n ymarfer proffesiwn mewn rhan o'r DU ac sydd â chymwysterau neu brofiad a gafodd mewn rhan arall o'r DU gael ei drin ar yr un sail â gweithiwr proffesiynol â chymwysterau lleol, mewn perthynas â gofynion proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi cael eu cydnabod drwy'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig neu drwy broses sy'n cydymffurfio â chymal 24 ond mae hefyd yn gymwys i breswylwyr eraill y DU sydd â chymwysterau neu brofiad a gawsant yn y DU.

53. Rhaid trin gweithiwr proffesiynol sydd â chymwysterau neu brofiad o'r tu allan i'r rhan o'r DU y mae’n ymarfer ynddi fel pe bai ei gymwysterau neu ei brofiad yr un fath â'r cymwysterau neu'r profiad sydd gan weithiwr proffesiynol cymwysedig lleol. Os yw'r cymwysterau neu'r profiad yn wahanol o ran math ac na ellir eu cael yn yr ardal o dan sylw, dylid trin yr

ymgeisydd ar yr un sail oni bai y gellir cyfiawnhau gofynion mwy beichus oherwydd y gwahaniaethau yn y cymwysterau neu'r profiad.

54. Bydd y cymal hwn yn addasu gweithrediad rheolau yn y dyfodol ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol mewn perthynas â phroffesiynau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 27 – dehongli Rhan 3*

55. Mae'r cymal hwn yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Bil (neu'n darparu iddynt gael eu darllen mewn ffyrdd penodol mewn achosion penodol). I'r graddau y mae'n darparu rheolau dehongli ar gyfer unrhyw gymal yn Rhan 3 y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, bydd angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd, o dan reol sefydlog 29.1(i).

***Rhan 4: Cyngor Annibynnol ar Farchnad Fewnol y DU a'i Monitro***

*Cymalau 28-39*

56. Mae'r cymalau hyn yn rhoi swyddogaethau newydd i'r Swyddfa Marchnad Fewnol (OIM) newydd o fewn CMA, gan gynnwys monitro 'iechyd y farchnad', yn ogystal ag adrodd a chynghori ar effaith economaidd cynigion a rheoliadau penodol mewn unrhyw ran o'r DU ar farchnad fewnol y DU, gan gynnwys effaith ar fasnach, buddsoddi, a chystadleuaeth o fewn y DU. Nod y swyddogaethau hyn yw darparu adroddiadau cyhoeddedig i bob gweinyddiaeth, deddfwrfa, a rhanddeiliaid allanol ar ddatblygiadau ym marchnad fewnol y DU. Darperir ar gyfer y pwerau casglu gwybodaeth presennol o dan adran 174 o Ddeddf Menter 2002, er eu bod wedi eu haddasu i fod yn gymwys i swyddogaethau marchnad fewnol y DU.

57. Mae darpariaethau'r Rhan hon yn creu swyddogaethau sy'n ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

***Rhan 5: Protocol Gogledd Iwerddon***

*Cymal 40 – lle Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol a thiriogaeth tollau'r DU*

58. Mae'r cymal hwn yn gosod dyletswydd ar holl awdurdodau'r DU, gan gynnwys llywodraethau datganoledig perthnasol, sy'n gweinyddu'r Protocol i roi'r sylw mwyaf posibl i: (i) lle annatod Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU fel y nodir yn Erthygl 6(2) o'r Protocol; (ii) lle Gogledd Iwerddon yn nhiriogaeth tollau'r DU; a (iii) yr angen i hwyluso llif dirwystr nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

59. Mae Erthygl 6(2) o Brotocol Gogledd Iwerddon yn darparu bod "[h]aving regard to Northern Ireland's integral place in the United Kingdom's internal market, the Union and the United Kingdom shall use their best endeavours

to facilitate the trade between Northern Ireland and other parts of the United Kingdom, in accordance with the applicable legislation and taking into account their respective regulatory regimes as well as the implementation thereof".

60. Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau mewn perthynas â gweithredu'r Protocol, gan gynnwys y swyddogaethau hynny a grëwyd gan adran 8C o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018. Bydd ceisio addasu neu lywio'r ffordd y mae swyddogaethau o'r fath, mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn cael eu harfer hefyd yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 41 – mynediad dirwystr*

61. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priodol beidio ag arfer eu swyddogaethau mewn ffordd a fyddai'n arwain at wiriad, rheolaeth neu broses weinyddol newydd ar symud nwyddau Gogledd Iwerddon cymwys yn uniongyrchol o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Yn ogystal, ni ddylai arfer swyddogaeth arwain at ddefnyddio gwiriad, rheolaeth neu broses weinyddol sy'n bodoli eisoes am y tro cyntaf, neu at ddiben newydd neu i raddau newydd.

62. Diffinnir symud yn uniongyrchol fel symud nad yw'n cynnwys cludiant drwy diriogaeth unrhyw wladwriaeth arall heblaw am y DU.

63. Bydd y cymal hwn yn addasu sut y bydd swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn arferadwy. Bydd felly'n ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac, o ganlyniad, mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

***Rhan 6 – Pwerau Cymorth Ariannol***

64. Mae cymalau 46 a 47 yn rhoi pŵer cyffredinol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu cymorth ariannol at ddibenion datblygu economaidd, diwylliant, gweithgareddau chwaraeon, seilwaith, gweithgareddau a chyfnewidiadau addysg a hyfforddiant domestig, a gweithgareddau a chyfnewidiadau addysg a hyfforddiant rhyngwladol.

65. Mae'r cymal hwn yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

***Rhan 7: Darpariaethau Terfynol***

*Cymal 50 – darpariaeth bellach mewn cysylltiad â Phrotocol Gogledd Iwerddon*

66. Elfen gyntaf hyn yw datgymhwyso cymal 11 ar yr adeg pan fo Erthyglau 5 i 10 o'r Protocol yn peidio â bod yn gymwys. I'r graddau y mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 11, mae'r un peth yn gymwys mewn perthynas â chymal 50(1)(a).

67. Mae cymal 50(2) yn egluro nad yw Bil y Farchnad Fewnol yn effeithio ar y pwerau i weithredu'r Protocol yn adran 8C o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018. Mae'r pwerau hynny'n cynnwys pwerau Gweinidogion Cymru, ac felly mae'r is-gymal hwn hefyd yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae angen cydsyniad ar ei gyfer.

68. Mae cymal 50(3) yn mewnosod cyfyngiad yn adran 8C o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 (pŵer i weithredu'r Protocol) sy'n cysylltu'n ôl ag adran 41, a byddai felly angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymalau 51 a 52 – rheoliadau*

69. I'r graddau y caiff pwerau amrywiol yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog y Goron i wneud rheoliadau eu creu yn y Bil, ac y gellid eu hefelychu ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn unrhyw Ddeddf gyfatebol gan y Senedd, byddai'r cymal hwn, sy'n gosod gweithdrefn Senedd y DU ar gyfer y rheoliadau, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad ar ei gyfer o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 53 – dehongli: cyffredinol*

70. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn darparu rheolau dehongli ar gyfer gweithredu cymalau eraill yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, byddai angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd, o dan reol sefydlog 29.1(i).

*Cymal 54 – cwmpas, cychwyn ac enw byr*

71. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn darparu ar gyfer cychwyn cymalau eraill yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, byddai angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd, o dan reol sefydlog 29.1(i).

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y Farchnad Fewnol**

72. Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y mesurau a gynigir yn y Bil yn gymesur mewn unrhyw ffordd â’r amcanion y mae Llywodraeth y DU yn eu honni ar ei gyfer. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor

marchnad fewnol i'r DU nac yn gwrthwynebu cyfundrefn gymorthdaliadau ledled y DU. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn y Bil hwn yn mynd ymhell y tu hwnt i'r strwythur y gallai fod ei angen i sicrhau cydweithrediad economaidd a rheoleiddiol rhwng cenhedloedd y DU. Os caiff ei ddeddfu, byddai'n tanseilio pwerau hirsefydledig y Senedd a Gweinidogion Cymru i reoleiddio mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd datganoledig.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd**

73. Ni fydd modd i Lywodraeth Cymru argymell i'r Senedd roi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd.

74. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu elfennau o bob rhan o'r Bil.

75. Rydym yn gwrthwynebu Rhannau 1 i 3 ar y sail eu bod yn gweithredu egwyddorion mynediad i'r farchnad yn awtomatig mewn ffordd gynhwysfawr, heb eithriadau priodol, heb unrhyw ofyniad i gynnal safonau uchel, a heb ofyniad i ddod i gytundeb rhynglywodraethol yn y lle cyntaf, drwy Fframweithiau Cyffredin. Effaith y rheolau sy'n cael eu creu yn y Rhannau hyn fydd rhoi o'r neilltu unrhyw reolau a wneir yng Nghymru (ar ôl i'r Rhannau hyn gychwyn) fel y maent yn gymwys i unrhyw nwyddau neu wasanaethau sy'n deillio o unrhyw ran arall o'r DU (neu sydd wedi eu mewnforio i unrhyw ran arall o'r DU, yn achos nwyddau). Mae'r elfennau hyn o'r Bil yn agor y drws i 'ras i'r gwaelod' o ran gosod safonau amgylcheddol a safonau diogelwch ac ansawdd bwyd, ymhlith pethau eraill.

76. Mewn perthynas â Rhan 4, mae Llywodraeth Cymru yn agored i'r syniad o greu Swyddfa Marchnad Fewnol annibynnol sydd â rôl gynghori ond nid yw'n ystyried CMA, fel y mae ar hyn o bryd, yn gyfrwng addas ar gyfer hyn.

77. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu Rhan 5 ar y sail bod cymalau yn y Rhan hon yn torri cyfraith ryngwladol. Mae cymalau 42 a 43 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU ddiystyru telerau yn y Cytundeb Ymadael, yn benodol y Protocol ar gyfer Iwerddon a Gogledd Iwerddon, y cytunodd Llywodraeth y DU a'r UE arno. Mae'r cymalau hyn felly'n torri telerau'r Cytundeb Ymadael.

78. Mewn perthynas â Rhan 6, safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylid dileu'r adran hon o'r Bil. Nid oes cysylltiad mecanyddol rhwng yr egwyddorion mynediad i'r farchnad a nodir yn Rhannau 1-4 a'r pwerau cymorth ariannol newydd sydd i'w harfer gan Weinidogion Llywodraeth y DU, a nodir yn Rhan 6. Nid oes angen y pwerau a byddant yn tanseilio penderfyniadau gwario a wneir gan y Senedd a Gweinidogion Cymru.

79. Er bod Llywodraeth Cymru o blaid creu cyfundrefn gymorthdaliadau ledled y DU, rydym yn gwrthwynebu Rhan 7 (cymal 48) sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i gadw cymorth gwladwriaethol yn ôl. Dylid creu cyfundrefn o'r fath drwy drafod a negodi rhwng y pedair rhan o'r DU.

80. Rydym hefyd yn gwrthwynebu cymal 49. Drwy’r cymal hwn, byddai’r Bil cyfan yn ddeddfiad gwarchodedig. Dim ond mewn ffordd gul, drwy gytundeb rhwng y deddfwrfeydd, y dylid gweithredu gwarchodiadau o’r fath.

81. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar welliannau arfaethedig i’r Bil a fydd yn mynd i'r afael â'n pryderon. Byddwn yn cyhoeddi’r gwelliannau hyn maes o law.

**Goblygiadau ariannol**

82. Nid yw'n glir ar wyneb y Bil a fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu'r Senedd yn deillio o'r pwerau o dan y Bil.

83. Er bod Llywodraeth y DU wedi datgan y byddai'r pwerau cymorth ariannol a nodir yn Rhan 6 yn ychwanegol at y cyllid a dderbynnir ar hyn o bryd drwy'r grant bloc, nid oes unrhyw fanylion nac ymrwymiad yn narpariaethau’r Bil a fyddai’n darparu sail gyfreithiol ar gyfer y sicrwydd hwn.

**Casgliad**

84. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig. Ond ni fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymell rhoi cydsyniad oni bai bod y Bil yn cael ei ddiwygio’n helaeth i fynd i’r afael â’n pryderon sylweddol.

**Jeremy Miles AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**25 Medi 2020**

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon